

## Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

### Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15 fed Fedi 2014

Presennol – Einion Edwards Cadeirydd, Alun Jones, Hefin Edwards, Menai Hughes, Helen Ellis, John D Jones, Prys Ellis, Iwan Price, Ieuan Jones, Cyng Sir Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto G Jones

Datgan diddordeb, Datganwyd diddordeb yng nghofnod [1.7 a] gan Helen Ellis a gadawodd y cyfarfod tra bu'r mater dan sylw.

Cofnodion. Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 22ain Orffennaf 2014

Materion yn Codi :

#### [1] Yr Heddlu

Nid oedd neb yn bresennol o'r Heddlu

#### [1.1] Dyfodol y Llyfrgell

Dywedodd y clercc y bydd y llyfrgell yn debygol o symud yn ôl i'r adeilad arferol cyn diwedd y mis.

#### [1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd bod y daflen yn cynnwys yr enwau yn cefnogi'r cynllun yn barod i'w hanfon ymlaen i'r Cyngor Sir.

#### [1.3] Ms Heidi Dobbs/Trefnu ar gyfer Argyfwng

Cytunodd y Cyng. Peter Lewis i wneud ymholiadau.

#### [1.4] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Nodwyd y bydd y goliau yn cael eu gosod yn y dyfodol agos.

#### [1.5] Goleuadau

Y clercc i anfon neges nad oedd y golau ar y canlynol :

[a] Lamp rhif 4 ar yr A5 yng Nglasfryn

[b] Lamp wrth Bont Ty'n Rhyd.

#### [1.6] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Deallwyd bod y goleuadau wedi eu gosod ond nad ydynt yn hollol foddhaol.

Y brif agenda

#### [1.7] Ceisiadau Cynllunio

[a] Estyniad a newidiadau arfaethedig. Growine, Glasfryn

[b] Gosod cabinet, BT exchange, King Street, Cerrig-y-Drudion.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.8] Gwasanaeth Iechyd

Deallwyd bod pryder ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan ddau o drigolion yr ardal yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Penderfynwyd i anfon y pryderon ymlaen at Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Cytunodd Menai Hughes yn y lle cyntaf, i gysylltu gyda'r clerc gyda'r manylion.

[1.9] Cattle Grid Ffordd Brenig ar Gyffordd ger y Sportmans Arms

Y clerc i gysylltu gyda Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn a chyflwr y grid.

[2] Cyfarfodydd y Cyngor

Mynegwyd pryder gan y Cyng. Prys Ellis bod rhai o drafodaethau'r Cyngor yn dueddol i fod yn Saesneg ac y dylai materion y Cyngor fod bob amser yn yr iaith Gymraeg.

[2.1] Llythyrau o ddiolch

Nodwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad gan y canlynol:

[a] Tŷ Gobaith

[b] Ambiwylans Awyr Cymru

Cadeirydd\_\_\_\_\_